



## Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

**Achosion positif o covid-19** - ni ddylai disgyblion sydd â symptomau covid-19 fynychu'r ysgol. Mi fydd angen parhau i hunan ynysu am 5 diwrnod a chael 2 brawf LFD negyddol cyn dychwelyd.

**Eisteddfod ysgol** – gwahoddir disgyblion i wisgo lliwiau eu tŷ / gwisg Gymreig ar gyfer diwrnodau'r Eisteddfod ysgol ar ddydd lau a dydd Gwener yr wythnos hon. Mi fyddwn yn rhannu canlyniadau a blas o'r cystadlu ar gyfrif trydar yr ysgol – cofiwch ymweld â chyfrif trydar blwyddyn eich plant.

**Disgyblion y Meithrin – Eisteddfod Ysgol** - Mi fydd disgyblion y Meithrin sy'n mynychu yn y bore yn perfformio yn ystod y bore a disgyblion y Meithrin sy'n mynychu yn y prynhawn yn perfformio yn ystod y prynhawn ar y dydd lau – nid oes angen i chwi wneud unrhyw newidiadau i'r drefn arferol.

**Sioe Twm Siôn Cati - Arad Goch yn Theatr y Werin** - mi fydd disgyblion Blynnyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn ymweld â Theatr y Werin ar fore dydd Mawrth, Mai'r 24ain i weld perfformiad o Twm Siôn Cati. Mae'r ysgol wedi llwyddo i gael grant o **£1000 gan gronfa 'Ewch i weld', Cyngor y Celfyddydau Cymru** er mwyn cynorthwyo gyda'r gost. Y gost arferol yn cynnwys cludiant ar gyfer pob plentyn fyddai £8.00 ond mae cyfraniad y grant yn golygu fod y gost yn **lleihau i £2.00 y plentyn**. Mi fyddwn yn trefnu i'r gost i ymddangos ar eich cyfrif Parent Pay yr wythnos hon.

**Gwyliau Hanner Tymor** – mi fydd yr ysgol yn cau am 3.30yp ar ddydd Gwener, Mai 27ain ac yn ail agor ar ddydd Llun, Mehefin 6ed.

**Noddi rhaglen Gŵyl Haf yr ysgol** - os oes gennych ddi-ddordeb mewn noddi'r rhaglen ar gyfer Gŵyl Haf yr ysgol eleni yna cysylltwch â mi cyn hanner tymor. Yn ystod y blynnyddoedd a fu roedd cwmnïau neu fusnesau yn gosod hysbyseb yn y rhaglen - hysbyseb fechan (maint cerdyn busnes tua 8.5cm x 5.5cm) - £50 neu hysbyseb fwy am £100. Er bod y digwyddiad ar gaeau'r ysgol mi fyddwn angen hurio llwyfan, system sain a gorchudd canopi mawr ar gyfer y digwyddiad. Cofiwch y dyddiadau - **dewis cyntaf - nos Fawrth, Mehefin 14eg am 6 o'r gloch**. Os fydd y tywydd yn anffafriol rydym wedi trefnu ail ddyddiad ar nos Fercher 15fed, a thrydydd dyddiad ar nos lau, 16eg. Rhagor o fanylion i ddilyn.

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych 2022** – dyma'r amseroedd diweddaraf, gofynnir yn garedig i rieni / gwarchodwyr drefnu cludiant. Mi fydd yr ysgol yn argraffu ac yn dosbarthu tocynnau i'r disgyblion fydd yn cystadlu – cofiwch fod angen i chwi (rhieni a gwarcheidwaid) drefnu tocyn er mwyn cael mynediad i'r maes – mae'r tocynnau am ddim - ewch i [Eisteddfod yr Urdd | Urdd Gobaith Cymru](#)

Cystadleuaeth	Dyddiad	Amser cychwyn y gystadleuaeth	Amser cyfarfod gyda staff yr ysgol	Man cyfarfod
Cerddorfa	Dydd Llun 30/05/2022	10.05	<b>9.30</b>	Ardal Ymgynnull y Pafiliwn GWYRDD
Cân Actol	Dydd Llun 30/05/2022	14.25	<b>13.45</b>	Ardal Ymgynnull y Pafiliwn GWYRDD
Dawn Greadigol	Dydd Mawrth 31/05/2022	10.10	<b>9.30</b>	Ardal Ymgynnull y Pafiliwn GWYN
Dawns Amlgyfrwng	Dydd Mawrth 31/05/2022	13.05	<b>12.30</b>	Ardal Ymgynnull y Pafiliwn Gwyn
Côr	Dydd Mawrth 31/05/2022	15.20	<b>14.45</b>	Ardal Ymgynnull y Pafiliwn GWYN
Dawnsio Disgo unigol	Dydd Mercher 01/06/2022	9.00	<b>8.30</b>	Ardal Ymgynnull y Pafiliwn GWYN

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

R C Williams, Pennaeth, 16/05/2022



## Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

**Positive cases of covid 19** - pupils with covid 19 symptoms should not attend school. Self-isolation for 5 days and 2 negative LFD tests will be required before returning.

**School Eisteddfod** - pupils are invited to wear the colours of their house / Welsh costume for school Eisteddfod days on Thursdays and Fridays this week. We will be sharing results and a taste of the activities on the school's twitter account - remember to visit your children's class twitter account.

**Nursery Pupils - School Eisteddfod** - Nursery pupils attending in the morning will perform in the morning and Nursery pupils attending in the afternoon will perform in the afternoon on the Thursday – there is no need for you to make any changes to the usual routine.

**Twm Siôn Cati Show - Arad Goch at Theatr y Werin** - Years 3, 4, 5 and 6 will be visiting Theatr y Werin on Tuesday morning, May 24th to see a performance of Twm Siôn Cati. The school has been successful in securing a £ 1000 grant from the Arts Council of Wales 'Go and see' fund to help with the cost. The usual cost including transport per child would be £8.00 but the grant contribution **reduces the cost to £2.00 per child**. We will arrange for the cost to appear on your Parent Pay account this week.

**Half Term Holidays** - the school will close at 3.30pm on Friday, May 27th and re-open on Monday, June 6th.

**Sponsor the school's Summer Festival programme** - if you are interested in sponsoring the programme for this year's Summer Festival, please contact me before half term. In previous years companies or businesses placed an ad in the program - a small ad (business card size about 8.5cm x 5.5cm) - £ 50 or a larger ad for £ 100. Although the event is on the school field, we will need to hire a stage, sound system and large canopy cover for the event. Remember the dates - first choice - Tuesday, June 14th at 6 o'clock. If the weather is unfavourable, we have arranged a second date on Wednesday 15th, and a third date on Thursday, 16th. More details to follow.

**Denbighshire National Urdd Eisteddfod 2022** - these are the latest times, parents / guardians are kindly requested to arrange transport. The school will print and distribute tickets to the competing pupils - remember that you (parents and guardians) need to book a ticket to gain entry, tickets are free – visit [Urdd Eisteddfod | Urdd Gobaith Cymru](#)

Cystadleuaeth / Competition	Dyddiad /Date	Amser cychwyn y gystadleuaeth The time that the competition begins	Amser cyfarfod gyda staff yr ysgol The time that you need to meet the school staff	Man cyfarfod Where to meet the school staff
Cerddorfa / Orchestra	Dydd Llun / Monday 30/05/2022	10.05	<b>9.30</b>	Ardal Ymgynnull / (Meeting area) y Pafiliwn <b>GWYRDD</b>
Cân Actol / Action Song	Dydd Llun / Monday 30/05/2022	14.25	<b>13.45</b>	Ardal Ymgynnull (Meeting area) y Pafiliwn <b>GWYRDD</b>
Dawn Greadigol Creative dance	Dydd Mawrth / Tuesday 31/05/2022	10.10	<b>9.30</b>	Ardal Ymgynnull (Meeting area) y Pafiliwn <b>GWYN</b>
Dawns Amlygfrwng Multimedia dance group	Dydd Mawrth / Tuesday 31/05/2022	13.05	<b>12.30</b>	Ardal Ymgynnull (Meeting area) y Pafiliwn <b>Gwyn</b>
Côr / Choir	Dydd Mawrth / Tuesday 31/05/2022	15.20	<b>14.45</b>	Ardal Ymgynnull (Meeting area) y Pafiliwn <b>GWYN</b>
Dawnsio Disgo unigol Individual Disco dancing	Dydd Mercher / Wednesday 01/06/2022	9.00	<b>8.30</b>	Ardal Ymgynnull (Meeting area) y Pafiliwn <b>GWYN</b>

**If you have any worries regarding your child's wellbeing or education then please contact me immediately.**

**R C Williams, Headteacher, 16/05/2022**